

**COFNODION CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT A GYNHALIWDY YN NEUADD GYMUNEDOL,
DYFFRYN ARDUDWY AM 7.30 O'R GLOCH 03.05.16**

5.1 YMDDIHEURIADAU

Dim

5.2 PRESENNOL

Cyng. Owen Gwilym Thomas (Cadeirydd), Edward Griffiths (Is-Gadeirydd), Edward Williams, Catrin Edwards, Emrys Jones, Sian Edwards, John Ceri Evans, Margretta Cartwright, John Ellis Williams, Sion Ifor Williams, Mike Tregenza, Eryl Jones-Williams.

5.3 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Nid oedd ddim cyhoeddiadau i'w gwneud

5.4 COFNODION

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Ebrill 5ed fel rhai cywir.

5.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION

Item 4.9 (C) eisiau nodi na ddim yn gwneud gwaith ysgrifennydd pwyllgor y neuadd dros dro nes byddant wedi cael un arall mae y Cyng. Catrin Edwards ond yn chwilio am ysgrifennydd newydd i bwyllgor y neuadd.

Item 4.10 (D) adroddwyd bod y Cyng. Owen Gwilym Thomas, Edward Griffiths ac Emrys Jones wedi trwsio y bedd oedd wedi disgyn yn mynwent Llanddwywe.

Adroddwyd bod ateb byth wedi cael ei dderbyn gan yr Adran Priffyrdd ynglyn ar piler ar waelod Ffordd Gors y Gedol ag hefyd cytunwyd i anfon llythyr at yr Adran Priffyrdd ynglyn ar polion bler ar dir y diweddar Mr. Pottle ar Ffordd Gors y Gedol.

5.6 DATGAN DIDDORDEB

Datganodd y Cyng. Catrin Edwards ddiddordeb ynglyn a gwaith ffensio y maes parcio ac fe arwyddwyd dogfen Datgan Buddiant Personol ganddi.

Datganodd y Cyng. Sian Edwards ddiddordeb ynglyn a gwaith ffensio y maes parcio ac fe arwyddwyd dogfen Datgan Buddiant Personol ganddi.

Datganodd y Cyng. Eryl Jones Williams ddiddordeb yng nghais ariannol Ysgol Ardudwy ac fe arwyddwyd dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo.

5.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD

Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams ei fod ers y cyfarfod diwethaf wedi mynychu y canlynol:- Ebrill 5ed rheolau newydd gofal, Dolgellau, 11eg cyfarfod Ysbyty Alltwn ynglyn a GIC a gwasanaethau cymdeithasol, 16eg bore bore coffi clwb ieuenticid neudd bentref, prynhawn, hystings etholiad, Fairbourne, 18ed 10.30-1.00 pwyllgor safonau, Caernarfon, 1.30-4.00 partneriaeth mewn gofal, 27ain cyfarfod adfywio.

Mae mwyafrif o'r cyfarfodydd a ymgynghoriad gyda staff GIC a Gwasanaethau Cymdeithasol y mis hwn wedi bod yn delio gyda newidiadau Llywodraeth Cymru. Mae y newidiadau a ddaeth i rym ar y 6ed o Ebrill yn dal yn cael eu gweithredu gyda'r pwyslais ar roi y claf/client yn gyntaf a roi mewn lle cynlluniau gofal sydd yn addas at anghenion y claf. Yr angen yn nawr yw cael adborth o sut mae y system yn gweithio. Yn Ysbyty Alltwn lle mae y cynllun peilot ar waith mae galwadau i'r System Vanguard gael ei ehangu i gyfro bob ardal. Mae arwyddion cynnar yn dangos bodlonrwydd 100% gan gleifion. Yn yr ardal hon mae camddealltwriaeth gyda rhai cleifion yn mynd i ysbyty Alltwn a rhai i ysbyty Dolgellau a mae meddygon Bermo yn dueddol i ddefnyddio Dolgellau a Wrecsam lle mae meddygon Harlech yn defnyddio ysbytai Alltwn a Bangor. Mae mwy o ddefnydd yn mynd i gael ei wneud o Nyrsys Cymunedol a nyrsys meddygon. Mewn cyfarfod o Fwrdd Iechyd CIC gyda uwch swyddogion o'r GIC Betsi yn Mae Colwyn, amlygwyd bod angen gwneud mwy o ddefnydd o ysbytai cymunedol ar internet a skype i leihau teithio. Mae trafodaethau yn dal i fynd ynglyn a gofal dementia a cofrestru deublyg o gartrefi gofal. Mae pobl lleol yn dal yn gorfod teithio ymhell am ofal dementia Mae Gwynedd a Mon wedi ymuno ynglyn a Partneriaeth mewn Gofal

Ac 'rwyf yn bryderus eto bod blaenoriaeth yn gael ei roi i ardaloedd Caernarfon/Bangor. Mae gryn cythruddo Ynglyn a chau toiledau Gwynedd a mae deiseb wedi cael ei chychwyn i newid y penderfyniad neu o leiaf tretio pob ardal yr un fath. Mae amserlen newydd y rheilffordd yn cychwyn ar Fai 17eg ac 'rwyf yn dal i aros am gadarnhad bydd y tren 8.00 o'r gloch i'r gogledd o Bermo yn stopio yn mhob pentref. 'Roedd pryder yn y pwyllgor safonau bod Aelodau newydd etholedig o Gynghorau Tref a Chymuned drwy etholiad neu gyfethol i gael Cod Ymddygiad i Gynghorwyr ar Penaethes Nolan mewn Llywodraeth Leol. Fe wnaeth aelodau o'r clwb ieuencid gynnal bore coffi ag 'roeddynt wedi gweithio yn galed iawn ar y project. Fe wnaeth rhai lleol hefyd drefnu gem peldroed rhwng yr ieuencid ar rhai hyn a gallu codi dros £1,000 i'r Ambiwlans Awyr. Fe weithion yn galed i gael y cae yn iawn a codi arian ac yn cynllunio twrnament 8 bob ochr a diwrnod hwyl bach yn yr haf. Fe wnaeth dwsin o rhai lleol ddod i gyfarfod adfywio gyda un swyddog newydd yn cael ei ethol i gynrychioli'r ieuencid. Mae pwyslais yn cael ei roi ar gael pethau wedi ei gwneud gan gynnwys digwyddiad mawr yn 2018 i ddathlu canmlwyddiant o'r rhyfel byd cyntaf yn gorffen. 'Rwyf yn cefnogi cynlluniau i dynnu y coed sycamorwydden a gosod coed ceirios blodeuyn yn ei lle yn y ddau bentref. 'Rwyf ar gael ar 01341242758 neu 07796833767 neu e.joneswilliams@btinternet.com a mi nai barhau i ymweld a bobl lleol pryd mae'r angen.

5.8 CEISIADAU CYNLLUNIO

Caniatad Hysbyseb i arddangos un panel gwybodaeth - Gwarchodfa Natur Cenedlaethol Morfa Dyffryn, Talybont (NP5/58/AD583)

Cefnogi y cais hwn.

Caniatad Hysbyseb i arddangos un panel gwybodaeth - Gwarchodfa Natur Cenedlaethol Morfa Dyffryn, Talybont (NP5/58/AD583)

Cefnogi y cais hwn.

Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt

Amnewid to yr ystafell haul - Pen y Bryniau, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/59B) - caniatâu

Newidiadau ac estyniad i ffermdy a ty allan/garej cysylltiol - Fferm Llwynwcws, Llanaber (NP5/58/80A) - caniatâu

2 estyniad i'r bloc toiled a cawodydd presennol ac amnewid to fflat yr un adeilad gyda to brig a gosod grisiau dihangfa dan allanol newydd - Canolfan Gwersylla'r Boy's Brigade, Ffordd yr Orsaf, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/148B) - caniatâu

Amnewid ystafell wydr - 26 Glan Ysgethin, Talybont (NP5/58/577)- caniatâu

Defnydd y tir fel safle carafanau teithiol a gwersylla i 10 carafan teithiol a 6 pabell rhwng Dydd Gwener y Groglith a 31ain Hydref ym mhob blwyddyn - Gwernlys, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/LU557A) - caniatâu

Gosod carafan statig sengl ar y tir i'w feddiannu fel llety parhaol - Tir yn Llecheiddior Isaf, Talybont (NP5/58/LU505A) - caniatâu.

5.9 MATERION YN CODI

A Ethol Swyddogion am y flwyddyn 2016/17:-

Cadeirydd:- Cyng. Edward Griffiths

Is-Gadeirydd:- Cyng. Emrys Jones

Pwyllgor Elin Humphries:- Cadeirydd a'r Cyng. Catrin Edwards

Is-bwyllgor cynllunio:- Cyngor llawn

Is-bwyllgor cyllid:- Cyngor llawn

Is-bwyllgor fynwent:- Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng. John Ellis Williams a Owen Gwilym Thomas

Is-bwyllgor seddi:- Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng. Edward Williams a Sion Ifor Williams

CCTV:- Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng. Catrin Edwards ac Eryl Jones Williams

Is-bwyllgor hen barc chwarae:- Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng. John Ellis Williams, Edward Williams a John Ceri Evans

Un Llais Cymru:- Cadeirydd, Is-Gadeirydd a'r Cyng. Eryl Jones Williams fel enw wrth gefn

Llwybrau cyhoeddus:- Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng. Sion Ifor Williams ac Edward Williams

Wrth ymadael ar Gadair diolchodd y Cyng. Owen Gwilym Thomas i'w gyd Gynghorwyr am y fraint o gael bod yn Gadeirydd y Cyngor hwn am y ddwy flynedd diwethaf a dymunodd y gorau i'r Cadeirydd newydd sef y Cyng. Edward Griffiths. Ar ran y Cyngor diolchodd y Cyng. Margretta Cartwright i'r Cyng. Owen Gwilym Thomas am ei waith caled mae wedi ei wneud i'r Cyngor hwn.

Wrth gymeryd y Gadair drosodd diolchodd y Cyng. Edward Griffiths i'w gyd Gynghorwyr am y fraint o gael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor a diolchodd i'r cyn Gadeirydd am ei waith yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

B Cynllun Busnes

Adroddwyd bod £1,157.58 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd.

C Camerau CCTV

Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams bod ddim i'w adrodd ar y mater uchod ar hyn o bryd oherwydd bod problemau i gael yr Heddlu i ddod draw i gyfarfod ar pwyllgor. Cytunwyd gofyn i'r Heddlu unwaith yn rhagor i ddod i gyfarfod ar pwyllgor, ag os na fyddai yn bosib cael yr Heddlu i ddod draw bod y Cyngor yn rhoid yr hawl i'r pwyllgor gario ymlaen hebddynt.

D Neuadd Bentref

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn ddim ond un pris o £1,320 i ail wneud ffens y maes parcio a hynny gan Mr. Hefin Edwards, Parc Isaf a cytunwyd i dderbyn y pris hwn. Adroddodd y Cyng. Edward Williams ei fod wedi edrych ar y golau yn y maes parcio ar broblem oedd bod y bulb oedd yn yr uned ddim yn perthyn i'r uned ag ei fod yn edrych i mewn i archebu y bulb cywir. Diolchwyd i'r Cyng. Edward Williams am ei waith gyda'r maes parcio. Oherwydd bod y Cyngor yn rhoi cyfraniad ariannol o £1,500 yn mis Mai yn flynyddol i bwyllgor y neuadd cytunwyd i wneud hyn eto eleni.

E Archwilio'r lloches bws, mynwentydd a parciau chwarae

Adroddodd y Cyng. Edward Griffiths ei fod heb gael amser i gario allan yr uchod ag y byddai wedi gwneud yr archwiliad erbyn y mis nesa.

F Gwefan y Cyngor

Adroddodd y Cyng. Mike Tregenza ei fod wedi cael gafael ar ddau safle wefan a fyddai yn addas i'r Cyngor a cytunwyd ei fod yn cario ymlaen i holi y ddau gwmni dan sylw i weld be fath o wasanaeth yr oeddynt yn ei gynnig ag hefyd a oeddynt yn gallu delio gyda'r iaith gymraeg. Cytunwyd bod y Cyngor yn talu unrhyw gostau oedd ynghlwm a hyn a gofynnwyd i'r Cyng. Tregenza gario ymlaen ac adrodd yn nol i'r cyfarfod nesa. Diolchwyd i'r Cyng. Tregenza am ei waith gyda hyn.

G Eglwys Llanenddwyn

Ddim i'w adrodd ar y mater uchod.

5.10 GOHEBIAETH

A Parc Cenedlaethol Eryri

Wedi cael llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod cais cynllunio ynglyn ac estyniad arfaethedig o'r parc carafanau presennol i leoli 23 carafan deithiol, creu lloriau caled, sylfeini ar gyfer cysgodlenni a manau parcio, adeiladu unedau cawodydd/toiledau a phwer solar cyfun ar gyfer pob carafan, darparu storfa biniau, creu mynediad a llwybrau cylchrediad mewnol ac adeiladu waliau cerrig sychio ar ffiniau gogledd ddwyreiniol a gogledd orllewinol y safle, creu man chwarae a gwaith helaeth i drin y dirwedd a phlannu coed - Parc Carafanau Sea Nymph, Islawffordd, Talybont (NP5/58/439D) wedi cael ei dynnu yn nol gan yr ymgeisydd ar yr 11eg o Ebrill.

B Swyddfa Bost

Wedi cael llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bydd y swyddfa bost yn y pentref yn cau ar y 6ed o Fai am 5.30 o'r gloch er mwyn gwneud gwelliannau ag yn ail agor am 1.00 o'r gloch ar y 13eg o Fai.

C Cyngor Gwynedd - Ffioedd Claddu

Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon at yr uchod yn gofyn am gopi o'r prisiau y maen't yn ei godi am gladdedigaethau yn eu mynwentydd er mwyn i'r Cyngor hwn gael rhyw ganllawiau i'w dilyn yn nawr bod y cynllun diffyg claddu gyda Cyngor Gwynedd wedi dod i ben. Adroddodd y Clerc ymhellach bod y Cyngor hwn wedi gwneud colled ariannol o £14.00 gyda'r fynwent yn ystod y flwyddyn ariannol diwethaf. Ar ol trafodaeth cytunwyd i godi y prisiau newydd o'r 1af o Ebrill.

D Cyngor Gwynedd - Adran Priffyrdd

Wedi cael ateb gan yr uchod ynglyn a materion a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor ag yn datgan oherwydd pellter rhwng cyffordd Ffordd yr Efail a Tyddyn Llan/Eglwys ar golau stryd presennol bod cais y Cyngor i osod golau ar y ffordd hon yn disgyn i ddsbarth golau troedffordd ag felly yn gyfrifoldeb y Cyngor hwn i'w gosod a'i ariannu. Hefyd yn datgan byddai amgangyfrif o'r gost i osod golau solar ar y golofn newydd yn £1,200 ag yn amgae gopi o fanylion golau solar a eglurhad parthed Deddf Priffyrdd 1980 a ymunai a goleuo troedffyrdd. Hefyd yn datgan ei fod yn trefnu i Swyddog ddod allan yn yr wythnosau nesaf i gyfarfod y Cadeirydd er mwyn mynd o amgylch y pentref i asesu cyflwr yr arwyddion enwau strydoedd. Adroddodd y Cyng. Owen Gwilym Thomas bod angen arwyddion newydd ar ffordd isa, ffordd yr orsaf, ffordd y Llan a ffordd y capel ond ei fod heb fynd o amgylch Talybont eto a cytunodd y Cyng. Emrys Jones edrych ar yr ardal hon.

E Ysgol Ardudwy

Wedi cael llythyr gan yr uchod yn datgan bod Cyngor yr Ysgol wedi penderfynnu bod angen cael diffibriliwr i'r Ysgol rhag ofn i ddisgybl neu aelod o staff gael ataliad y galon yn ddirybudd fel a ddigwyddodd yn Ysgol Eirias, Bae Colwyn yn gynharach eleni ag yn gofyn a fyddai y Cyngor yn fodlon rhoi cyfraniad ariannol at archebu diffibriliwr. Cytunwyd i aros i weld beth oedd Cynghorau eraill yr ardal yn mynd i gyfranu.

F Ysgol Ardudwy

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn gofyn a fyddai yn bosib i rhai o ddisgyblion blwyddyn 9 gwneud gwaith yn y gymuned ar y 11eg a 12ed o Orffennaf. Cytunwyd roi y mater ar yr agenda at mis nesa.

G Hamdden Harlech ac Ardudwy

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn gwahodd y Cadeirydd, Is-Gadeirydd ac un Aelod arall o'r Cyngor i gyfarfod a hwy ar yr 8ed o Fehefin am 6.00 o'r gloch er mwyn trafod rhoi costau rhedeg y safle ar presept y Cyngor. Cytunwyd bod yr Cadeirydd ar Is-Gadeirydd yn mynychu ynghyd ar Cyng. Mike Tregenza.

H CAFC Meirionnydd Sir Nawdd 2016 - Pwyllgor Cylch Ardudwy

Wedi cael llythyr gan y pwyllgor lleol yn gofyn a fyddai y Cyngor yn fodlon rhoi cyfraniad ariannol tuag at yr uchod. Cytunwyd oherwydd bod y Cyngor wedi cyfranu £500 nol yn mis Hydref i beidio rhoi cyfraniad eto.

5.11 ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Adroddodd y Trysorydd bod £9,131.12 yn y cyfrif rhedegol, £1,319.39 yng nghyfrif y cae chwarae, £7,538.20 yn y cyfrif wrth gefn a £33.00 yng nghyfrif y Cadeirydd.

Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf

Mrs Annwen Hughes - £147.00 (cyflog) + £213.75 costau = £360.75
Cyngor Gwynedd - £930.67 - costau etholiad is-etholiad Ward Llanenddwyn
AON Ltd - £1,994.95 - insiwrant y Cyngor

Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf

Cyngor Gwynedd - £10,000.00 - hanner y precept

Ceisiadau am gymorth ariannol

Pwyllgor Neuadd Bentref - £1,500.00

Ysgol Ardudwy - penderfynwyd aros i weld beth oedd Cyngorau arall yn yr ardal yn mynd i gyfranu

CAFC Meirionnydd Sir Nawdd 2016 - Dim oherwydd bod y Cyngor wedi cyfranu £500 yn barod nol yn mis Hydref

Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf

Catrin Sorya Williams - £156.12 - cyfieithu

Adroddodd y Trysorydd ei bod wedi bod yn ymweld ar Archwiliwr Mewnol a wedi cael yr Adroddiad Blynyddol ynghyd ar dogfennau yn nol a bod popeth mewn trefn. Fe aeth yr Aelodau drwy'r Ffurflen Flynyddol ac adolygwyd y datganiadau cyfrifo ac atepwyd y cwestiynau llywodraethiant a chymeradwyd y Ffurflen Flynyddol ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd ar Trysorydd.

5.12 UNRHYW FATER ARALL

Ar ran y Cyngor diolchodd y Cyng. Margretta Cartwright i'r Trysorydd am ei gwaith caled a cywrain gyda'r cyfrifon bob amser.

Cytynwyd i anfon llythyr at Gyngor Gwynedd yn gofyn a fyddai modd cael mwy o le parcio yn y pentre.

Cytunwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn a fyddai modd cael arosfa bws wrth y neuadd.

Cytunwyd gofyn i Mr. John Barrot waredu y tyrchod sydd yn y cae peldroed a cytunodd y Cyng. Emrys Jones ddelio gyda'r mater.

ARWYDDWYD.....Cadeirydd

DYDDIAD.....